



Cais am chwiliad am Ddyfarniad Absoliwt Ysgariad

Beth yw'r Mynegai Canolog Dyfarniadau Absoliwt?

Mae'r Mynegai Canolog yn gofnod o bob dyfarniad absoliwt a roddwyd gan lysoedd yng Nghymru a Lloegr ers 1858. Caiff ei gadw a'i reoli gan y Llys Teulu Canolog, ac mae gan unrhyw un hawl i wneud cais am gael cynnal chwiliad ac i gael tystysgrif yn dangos y canlyniad ac unrhyw ddyfarniad absoliwt sy'n cael ei ganfod.

Mae nifer o resymau pam y byddai rhywun, efallai, eisiau gwneud cais am chwiliad drwy'r Mynegai Canolog. Y rhesymau mwyaf cyffredin yw:-

- I gael copi o'u dyfarniad absoliwt, os ydynt wedi colli'r un gwreiddiol ac nid oes ganddynt gofnod o fanylion yr achos mwyach
- I ganfod a ydynt wedi ysgaru, wedi iddynt fod wedi gwahanu oddi wrth eu priod am gyfnod hir
- I ganfod a yw ffrind neu berthynas wedi cael ysgariad
- I helpu olrhain achau neu am resymau hanesyddol eraill.

Sut mae gwneud cais am chwiliad?

I wneud cais am chwiliad, mae'n rhaid i chi lenwi Ffurflen D440 a'i hanfon i'r:

Llys Teulu Canolog
Adran Chwiliadau Dyfarniadau Absoliwt
First Avenue House
42 – 49 High Holborn
Llundain WC1V 6NP

Ffôn: 020 7947 6000 (switsfwrdd)

Gallwch gael y ffurflen hon o swyddfa unrhyw lys teulu neu oddi ar ein gwefan: hmctsformfinder.justice.gov.uk. Os byddwch yn mynd yno, ni all ein staff ar y cownter gynnal chwiliad o'r mynegai tra'r ydych yn aros. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, anfonir canlyniadau'r chwiliad atoch o fewn 10 diwrnod gwaith.

Faint fydd y gost?

Y ffi am chwiliad 10 mlynedd drwy'r mynegai canolog yw £65.00. Sylwch, gall y ffi hwn newid. Am restr gyfredol o ffioedd llys, gweler y llyfryn **EX50 - Ffioedd Llys Sifil a Llys Teulu**. Gallwch gael copi o swyddfa unrhyw lys teulu neu oddi ar ein gwefan yn: hmctsformfinder.justice.gov.uk. Os byddwch yn talu gyda siec, gwnewch hi'n daladwy i: Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Sylwch: Ni ellir dileu ffi ar gyfer gwneud copïau/dogfennau dyblyg bellach.

Sut mae llenwi Ffurflen D440?

Mae Ffurflen D440 ynghlwm. Mae'r cwestiynau'n gymharol syml a dylech geisio ateb gynifer ag y gallwch. Fan leiaf, mae ar y llys angen enwau llawn y ddau barti yn y briodas, a dylid cymryd gofal mawr i sicrhau bod yr enwau wedi eu sillafu'n gywir. Gall sillafiad anghywir arwain at chwiliad aflwyddiannus!

Wedi i chi llenwi'r ffurflen, dylech ei hanfon i'r Llys Teulu Canolog gyda'r ffi briodol i'r cyfeiriad uchod.

Beth fyddaf yn ei gael?

Os bydd popeth mewn trefn, cewch dystysgrif o'r chwiliad o fewn 10 diwrnod gwaith.

Os bydd rhywbeth o'i le ar eich cais, bydd yn cael ei ddychwelyd atoch gyda llythyr yn rhoi'r rheswm pam mae'n cael ei ddychwelyd, o fewn 10 diwrnod gwaith.

Mewn chwiliad llwyddiannus lle canfyddir bod yr achos ysgaru wedi digwydd yn y Llys Teulu Canolog, byddwch hefyd yn cael copi dan sêl neu gopi ardystiedig dan sêl o'r dyfarniad absoliwt.

Os digwyddodd yr achos ysgaru mewn llys gwahanol i'r llys hwn, cewch wybod enw'r llys a rhif yr achos, a byddwn yn ysgrifennu at y llys hwnnw ar eich rhan i'w cyfarwyddo i anfon copi o'r dyfarniad absoliwt atoch.

Darperir copi ardystiedig dan sêl dim ond os byddwch yn nodi yn eich cais fod angen dyfarniad absoliwt mewn perthynas ag achos y tu allan i Gymru a Lloegr.

Os nad oes cofnod fod dyfarniad wedi'i roi, cewch dystysgrif yn nodi na ddaethpwyd o hyd i gofnod.

Sylwch – Nid yw'r Llys Teulu Canolog yn cadw unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud ag achosion a gychwynwyd mewn llysoedd eraill, dim ond cofnod o unrhyw ddyfarniadau absoliwt y maent wedi eu rhoi. Felly, os oes arnoch angen copi o ddyfarniad absoliwt ac rydych eisoes yn gwybod rhif yr achos ac enw'r llys a roddodd y dyfarniad, dylech ysgrifennu'n uniongyrchol at y llys hwnnw a chynnwys y ffi briodol am gopi o'r dyfarniad ac am unrhyw wybodaeth arall y mae arnoch ei hangen.

Gwybodaeth Gyffredinol

Os ydych yn anfon eich dogfennau drwy'r post, dylech eu hanfon i'r:

Llys Teulu Canolog
Adran Chwiliadau Dyfarniadau Absoliwt
First Avenue House
42 – 49 High Holborn
Llundain WC1V 6NP
Ffôn: 020 7947 6000 (switsfwrdd)

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y llys, ei gyfleusterau a map o'r lleoliad yn courttribunalfinder.service.gov.uk

